

Gofynion Iaith Saesneg

Ymgynghoriad cyhoeddus 2022

Tudalen gynnwys

1. Ynglŷn â ni

2. Pam ydym ni'n ymgynghori?

3. Ein gofynion presennol

4. Yr adolygiad presennol

Amserlen ymgynghori

Y sylfaen o dystiolaeth

Cynigion ymgynghori

5. Sut i ymateb i'n hymgynghoriad

6. Beth fyddwn yn ei wneud nesaf

1. Ynglŷn â ni

Ni yw rheolydd annibynnol y Deyrnas Unedig o fwy na 758,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol. Ein pwrpas yw hyrwyddo a chynnal y safonau proffesiynol uchaf er mwyn amddiffyn y cyhoedd ac ennyn hyder yn y proffesiynau.

Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd. Mae rheoleiddio a chefnogi ein gweithwyr proffesiynol yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym yn gwerthfawrogi ymrwymiad ac ymroddiad gweithwyr proffesiynol rhyngwladol ar ein cofrestr sy'n gwneud cyfraniad hollbwysig at nyrsio a bydwreigiaeth mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol ledled y DU. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi ymgeiswyr rhyngwladol sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau cywir i gyflawni eu huchelgais i ymuno â'n cofrestr yn ddiogel a ffynnu ar ôl cofrestru.

2. Pam ydym ni'n ymgynghori?

O'r holl weithwyr iechyd a gofal proffesiynol, nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio sy'n treulio'r amser mwyaf gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal. Rhaid iddynt allu cyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg i ddarparu gofal diogel, o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n rhyngwladol ar ein cofrestr yn gwneud cyfraniad hollbwysig at nyrsio a bydwreigiaeth mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol ledled y DU. Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 gwnaethom gofrestru 23,408 o weithwyr proffesiynol a hyfforddwyd y tu allan i'r DU, sef 48 y cant o'r holl weithwyr newydd sy'n ymuno. Yn **ein strategaeth** rydym yn ymrwmo i barhau i wella'r gefnogaeth a ddarparwn i'n hymgeiswyr rhyngwladol a'r rhai sy'n eu cefnogi. Mae hyn yn cynnwys sut y gall yr ymgeiswyr hyn ddangos eu cymhwysedd yn yr iaith Saesneg.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â sicrhau bod ein gofynion iaith Saesneg yn parhau'n deg ac yn gymesur. Mae'n rhan hanfodol o'n rôl diogelu'r cyhoedd ein bod yn ein sicrhau ein hunain y gall pawb sy'n ymuno â'n cofrestr gyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg, a'n bod yn cynnal ein dyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod cofrestreion yn gymwys yn yr iaith Saesneg fel yr amlinellir yn ein Gorchymyn.¹

Rydym hefyd yn bwriadu sicrhau nad oes unrhyw rwystrau diangen i ganiatáu ymgeiswyr sy'n gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymuno â'n cofrestr, ni waeth ble y cawsant eu hyfforddi na sut y daethant yn gymwys yn Saesneg.

Drwy gydol hanner cyntaf 2022 buom yn myfyrio ar ein gofynion iaith Saesneg presennol, yn casglu tystiolaeth ac yn adolygu adborth rhanddeiliaid. Hoffem yn awr ofyn am eich barn ynghylch a ddylem wneud tri newid penodol i'n gofynion iaith Saesneg:

- sgoriau prawf
- geirdaon cyflogwr
- cymwysterau ôl-raddedig.

¹ Mae Erthygl 9(2)(ba) y **Gorchymyn** yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd am gofrestrriad fodloni'r Cofrestrydd bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg. Mae Erthygl 5A yn ei gwneud yn ofynnol i'r NMC gyhoeddi canllawiau ar y broses ar gyfer ymgeiswyr a'r "dystiolaeth, y wybodaeth neu'r dogfennau" sydd eu hangen i ddangos bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg. Mae Atodlen 4 i'r Gorchymyn yn diffinio hyn fel "gwybodaeth o'r Saesneg sy'n angenrheidiol ar gyfer ymarfer nyrsio, bydwreigiaeth yn ddiogel ac effeithiol yn y Deyrnas Unedig neu fel cydymaith nyrsio yn Lloegr". Mae Erthygl 3(14) o'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol inni ymgynghori ar unrhyw newidiadau a wnawn i'n canllawiau.

Mae rhagor o wybodaeth am ein cynigion isod.

Bydd ein hymgyngoriad yn rhedeg o 17 Mehefin 2022 tan 12 Awst 2022. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol, ymgeiswyr, cyflogwyr, undebau, sefydliadau addysg, a rhanddeiliaid eraill a grwpiau cynrychioliadol i roi sylwadau a rhoi adborth ar ein newidiadau arfaethedig. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan bobl sydd â phrofiad o'n prosesau recriwtio rhyngwladol, yn enwedig cofrestreion ac ymgeiswyr rhyngwladol.

Mae ein gofynion iaith Saesneg yn rhan allweddol o'n set ehangach o ofynion **cofrestru rhyngwladol** y mae'n rhaid i ymgeiswyr rhyngwladol eu bodloni. Ni fydd yr ymgynghoriad hwn yn edrych ar y gofynion ehangach hyn. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i ddeall pa gymorth pellach y gallwn ei ddarparu i ymgeiswyr rhyngwladol i'n cofrestr.

3. Ein gofynion presennol

Mae ein gofynion iaith Saesneg presennol yn sicrhau bod y cyhoedd yn gallu disgwyl y bydd nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio ar ein cofrestr yn meddu ar allu Saesneg sy'n angenrheidiol ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol. Maent yn nodi sut mae gan bob ymgeisydd yr un tair ffordd o arddangos eu cymhwysedd iaith, naill ai trwy hyfforddiant yn Saesneg, ymarfer Saesneg a reoleiddir neu brawf iaith.

Mae dwy elfen i'n **canllawiau iaith** Saesneg presennol: y meini prawf y byddwn yn eu defnyddio i asesu tystiolaeth, a'r mathau o dystiolaeth sy'n bodloni'r meini prawf hyn.

Rhaid i ymgeiswyr allu dangos cymhwysedd yn yr iaith Saesneg ar draws pedwar parth:

- darllen
- ysgrifennu
- gwranddo, a
- siarad.

Dim ond os yw'n bodloni'r meini prawf canlynol y byddwn yn derbyn tystiolaeth o gymhwysedd yn yr iaith Saesneg:

- Rhaid iddi fod yn ddiweddar, yn wrthrychol ac yn annibynnol.
- Rhaid iddi ddangos yn glir y gall ymgeisydd ddarllen, ysgrifennu, cyfathrebu a rhyngweithio â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, cleifion, eu teuluoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn effeithiol yn Saesneg fel nyrs, bydwraig neu mewn rôl sy'n debyg i rôl cydymaith nyrsio.
- Rhaid inni allu ei wirio'n rhwydd.

Ar hyn o bryd, mae tri math o dystiolaeth yn bodloni'r meini prawf hyn:

- Rhaglen nyrsio, bydwreigiaeth neu gydymaith nyrsio cyn cofrestru a addysgwyd ac a arholwyd yn Saesneg. Mae'n rhaid bod y rhaglen hon wedi cynnwys o leiaf 50 y cant o ryngweithio clinigol, a rhaid bod o leiaf 75 y cant o'r rhyngweithio clinigol wedi bod gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, cleifion, eu teuluoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn Saesneg.
- Ymarfer diweddar am flwyddyn mewn gwlad Saesneg ei haith fwyafrifol.²
- Cyflawniad diweddar o'r sgôr ofynnol yn y System Profi Iaith Saesneg Ryngwladol (IELTS) neu yn **un o'r profion Saesneg eraill a dderbynnir gan yr NMC** (ar hyn o bryd y Prawf Saesneg Galwedigaethol (OET)). Rhaid i ymgeiswyr gyflawni'r sgôr gofynnol mewn darllen, ysgrifennu, gwranddo a siarad.

² Gweler ein rhestr o wledydd derbyniol Saesneg eu haith: <https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/registration/accepted-english-speaking-countries.pdf>. Rydym yn cynnal ac yn diweddarau ein rhestr yn rheolaidd.

Mae ymgeiswyr sydd wedi'u hyfforddi yn y DU yn gallu dangos eu cymhwysedd trwy fod wedi cael eu haddysgu a'u harholi yn Saesneg, yn ogystal ag ymgeiswyr sydd wedi'u hyfforddi mewn **gwlad fwyafrifol Saesneg ei hiaith**. Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr a hyfforddwyd y tu allan i'r DU yn dangos eu cymhwysedd trwy gyflawni'r sgôr angenrheidiol yn un o'r ddau brawf iaith a dderbyniwn.

Lle nad yw'r dystiolaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr yn glir, rydym yn eu cyfeirio at Gofrestrydd Cynorthwyol sydd â'r disgrisiwn i dderbyn tystiolaeth nad yw wedi'i rhestru'n benodol cyn belled â'i bod yn bodloni'r meini prawf a nodir uchod. Os nad yw'r Cofrestrydd Cynorthwyol yn gallu derbyn y dystiolaeth hon gofynnir i'r ymgeisydd sefyll un o'n profion iaith cymeradwy. Mae gan ymgeiswyr yr hawl i apelio i banel apêl cofrestru (RAP) a all dderbyn unrhyw dystiolaeth a gyflwynir cyn belled â'i bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y canllawiau.

4. Yr adolygiad presennol

Rydym wedi adolygu ein gofynion iaith Saesneg sawl gwaith ers 2003, gyda'n hadolygiad diwethaf yn cael ei gynnal yn 2019. Ers adolygiad 2019 rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y cofrestreion rhyngwladol ar ein cofrestr. Rydym hefyd wedi cael adborth gan randdeiliaid y gallem roi mwy o hyblygrwydd i ymgeiswyr rhyngwladol ymuno â'n cofrestr tra'n parhau i sicrhau diogelwch y cyhoedd. O ystyried y cynnydd yn nifer y cofrestreion rhyngwladol a'r adborth hwn, mae'r amser bellach yn iawn i ystyried a oes angen diweddarau ein gofynion presennol.

Nodau'r adolygiad presennol yw:

- deall y rhesymau pam mae rhai ymgeiswyr yn ei chael yn anodd bodloni'r gofynion iaith rydym yn eu gosod a sicrhau bod gennym ofynion sy'n deg ac yn gymesur
- datblygu sylfaen dystiolaeth glir fel bod gennym hyder na fydd unrhyw newidiadau a wnawn yn creu risg i'r cyhoedd
- archwilio'r cyfraniad y gall cymorth cyflogwyr ei wneud.

Mae'r adolygiad hwn yn gyfle i hybu ein nodau a'n hamcanion o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) a darparu proses deg, hyblyg a gwrthrychol. Mae'r PSED yn enwi'r NMC fel un o'r rheolyddion sy'n gorfod:

- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth
- hybu cyfle cyfartal rhwng pobl o wahanol grwpiau
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau.

Amserlen ymgynghori

Ers mis Ionawr 2022 rydym wedi sefydlu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad hwn (gweler isod) ac wedi datblygu ein hopsiynau polisi. Yn fewnol, rydym wedi adolygu ac adnewyddu ein hadolygiad presennol o lenyddiaeth ac wedi datblygu ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA) newydd. Rydym hefyd wedi dod ag arbenigedd eraill i mewn. Rydym wedi sefydlu Grŵp Cynghori Allanol (EAG), wedi comisiynu OET i gynnal ymarfer gosod safonau ac wedi comisiynu ymchwil gan y Ganolfan Ymchwil i Ddysgu ac Asesu Saesneg (CRELLA) ar ein meini prawf profion iaith.

Roedd y gwaith hwn yn llywio'r opsiynau rydym wedi'u hystyried, ac rydym wedi comisiynu partner allanol, **Britain Thinks** i gynnal yr ymgynghoriad hwn ar ein rhan. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud cynigion terfynol i'n Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Medi fel y gallwn ddechrau rhoi unrhyw newidiadau ar waith o fis Hydref 2022.

Rydym yn bwriadu ymgysylltu â chymaint o bobl â phosibl yn ystod yr wyth wythnos o ymgynghoriad, a fydd yn rhedeg o 17 Mehefin 2022 tan 12 Awst 2022. Byddwn yn cynnal gweminarau a digwyddiadau ymgysylltu a gymedrolwyd gan ein partner ymgynghori Britain Thinks i gasglu safbwyntiau a sylwadau ar ein cynigion gan gynulleidfa mor eang â phosibl.

Y sylfaen o dystiolaeth

Profion iaith

Rydym yn derbyn dau brawf iaith fel tystiolaeth o allu rhywun i gyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg: y System Profion Iaith Saesneg Rhyngwladol (IELTS) Academaidd a'r Prawf Saesneg Galwedigaethol (OET). Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig, mae 94 y cant o'r 23,408 o weithwyr proffesiynol a hyfforddwyd yn rhyngwladol a gofrestrwyd gennym wedi llwyddo mewn prawf Saesneg cymeradwy i ddangos eu bod yn bodloni ein gofynion iaith.

Ar hyn o bryd rydym yn derbyn sgôr cyffredinol o 7 yn fersiwn academaidd IELTS. Mae IELTS yn profi darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad. Rhaid i ymgeiswyr gael sgôr o ddim llai na 7 mewn darllen, gwrando a siarad, a dim llai na 6.5 mewn ysgrifennu. Gallant ddarparu dwy dystysgrif prawf IELTS i fodloni'r gofynion uchod, ond ni ddylent fod wedi sgorio'n is na 6.5 mewn unrhyw gategori yn y naill brawf na'r llall a rhaid iddynt sefyll y ddau brawf o fewn chwe mis i'w gilydd.

Rydym hefyd yn derbyn sgôr cyffredinol o B yn yr arholiad OET. Mae OET yn profi darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad. Rhaid i ymgeiswyr gael sgôr o ddim llai na B mewn darllen, gwrando a siarad, a dim llai na C+ mewn ysgrifennu. Gallant ddarparu dwy dystysgrif prawf OET i fodloni'r gofynion uchod, ond ni ddylent fod wedi sgorio'n is na C+ mewn unrhyw gategori yn y naill brawf na'r llall a rhaid iddynt sefyll y ddau brawf o fewn chwe mis i'w gilydd.

Mae'r ddwy safon hyn yn cyd-fynd â graddfa C1 y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin (CEFR) – defnyddiwr 'hyfedr' (mae CEFR yn set o feincnodau a ddefnyddir yn eang ar gyfer gallu ieithyddol).

Mae ein tîm ymchwil wedi cynnal **adolygiad llenyddiaeth** yn edrych ar sut mae rheolyddion eraill yn gosod safonau ar gyfer profion iaith a pha brofion y maent yn eu derbyn. Mae hyn wedi dangos i ni fod ein dull o osod y safon dderbyniol ar gyfer ein profion iaith yn cyd-fynd yn fras ag arfer yn y DU ac yn rhyngwladol.

Fe wnaethom hefyd ofyn i OET gynnal **adolygiad gosod safonau** ar barthau darllen, gwrando a siarad (cynhaliwyd ymarfer tebyg ar ysgrifennu yn 2019). Buont yn gweithio gyda phanel amrywiol o bobl â gwybodaeth berthnasol a phrofiad o ymarfer proffesiynol yn y DU, gan gynnwys arweinwyr recriwtio rhyngwladol, addysgwyr clinigol a gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n rhyngwladol yn y DU.

Ym marn y panel gosodir y safonau presennol ar gyfer darllen a gwrando ar y lefel dderbyniol isaf. Fodd bynnag, ar gyfer siarad, penderfynodd y panel ar argymhelliad sgôr OET ar raddfa o 320 (C+), sydd ar gyfer IELTS rhwng 6.5 a 7.0. Mae'r adroddiad yn awgrymu ein bod yn ystyried tystiolaeth bellach mewn perthynas â'r sgil hwn er mwyn canfod beth allai'r lefel briodol fod.

Canfu ein hadolygiad llenyddiaeth hefyd fod profion y mae rheolyddion eraill yn eu derbyn nad ydym yn eu derbyn ar hyn o bryd. Fe wnaethom gomisiynu'r Ganolfan Ymchwil i Ddysgu ac Asesu Saesneg (CRELLA) ym Mhrifysgol Swydd Bedford i helpu cynghori sut y gallem ehangu'r ystod o brofion rydym yn eu derbyn yn deg. Eu barn gychwynnol yw bod ein meini prawf ar gyfer asesu'r profion rydym yn eu derbyn yn briodol ond y gallem roi mwy o eglurder ynghylch sut y gellir eu cyflawni. Byddwn yn ystyried yr adborth hwn ac yn adolygu'r deunydd ategol ar gyfer ein meini prawf, ond nid ydym yn bwriadu ymgynghori ar unrhyw newidiadau i'r meini prawf hyn.

Adborth rhanddeiliaid

Gwyddom fod gan rai pobl bryderon am ein dull gweithredu presennol, ac rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i ymgysylltu'n adeiladol â ni ar y mater hwn hyd yma. Cynhaliom ddigwyddiad gwrando ym mis Tachwedd 2021 i glywed profiadau personol pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o wneud cais i ymuno â'n cofrestr a'u hawgrymiadau ar gyfer newid. Roedd hwn yn ddechrau pwerus i'r adolygiad.

Gwnaethom gyflwyniad i'n Fforwm Llais y Cyhoedd ym mis Mawrth 2022 i feithrin ein dealltwriaeth o'r pwysigrwydd y mae'r cyhoedd a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn ei roi ar gymhwysedd Saesneg. Roedd mwyafrif llethol y Fforwm yn cytuno bod hyfedredd yn y Saesneg yn hanfodol i'n cofrestreion ac y dylem barhau i asesu'r pedwar parth iaith. Fe wnaethon nhw dynnu sylw at yr amser cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer rhyngweithio rhwng cleifion a gweithwyr proffesiynol, wedi'i waethygu gan y pandemig a symud i ymgynghoriadau o bell, sy'n gwneud sgiliau cyfathrebu da yn hanfodol.

Mae adborth gan y Fforwm yn awgrymu y dylem fod yn ofalus cyn newid ein safonau presennol ar gyfer unrhyw un o'r parthau iaith gan fod mynychwyr wedi rhoi enghreifftiau niferus o sut maent oll yn hanfodol ar gyfer gofal diogel ac effeithiol.

Grŵp Cynghori Allanol

Rydym wedi sefydlu Grŵp Cynghori Allanol (EAG) i helpu llywio ein dull ymgynghori. Mae'r EAG yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid i sicrhau ein bod yn clywed yn uniongyrchol gan y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan ein gofynion iaith Saesneg. Mae hyn yn cynnwys grwpiau sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol rhyngwladol, cyflogwyr, undebau, a chynrychiolwyr o'r pedair gwlad. Cynhaliom gyfarfod cyntaf yr EAG ym mis Ebrill 2022. Yn gyffredinol, o'r trafodaethau mae'n amlwg bod awydd am newid ond mae safbwyntiau cymysg a dim consensws clir ar hyn o bryd. Pwynt pwysig a wnaethpwyd dro ar ôl tro yw'r angen inni ystyried ffynonellau lluosog o sicrwydd ar gyfer pob math o dystiolaeth a dderbyniwn.

Cynigion ymgynghori

Gwyddom y gall rhai pobl ei chael yn anodd pasio ein profion iaith, er eu bod wedi eu hailsefyll sawl gwaith ac wedi treulio amser yn gweithio mewn rôl anghofrestredig ym maes iechyd a gofal yn y DU (Tystiolaeth Math 1 yn ein canllawiau). Gwyddom hefyd y gall pobl a gafodd eu haddysgu yn Saesneg mewn gwlad nad yw'n siarad Saesneg fwyafrifol ei chael yn anodd gwirio mai yn Saesneg oedd eu rhyngweithio clinigol yn ystod eu hyfforddiant (Math o Dystiolaeth 2). Isod rydym yn nodi ein cynigion i geisio mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, a'r cwestiynau ymgynghori cysylltiedig.

Tystlythyrau cyflogwr

Mae rhai rheolyddion gofal iechyd proffesiynol eraill yn y DU yn derbyn tystlythyrau gan gyflogwyr i gefnogi tystiolaeth o hyfedredd Saesneg. Er enghraifft, gall meddygon sy'n gwneud cais i gofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ddarparu'r mathau canlynol o dystlythyrau cyflogwr:³

- Gall meddyg sydd wedi bod yn ymarfer mewn gwlad lle mae Saesneg yn iaith gyntaf ac yn iaith frodorol ddarparu geirda a gwblhawyd gan ei ymgynghorydd goruchwylio dros gyfnod o ddwy flynedd yn union cyn dyddiad y cais.
- Gall meddyg sy'n cael cynnig cyflogaeth gan ddarparwr gofal iechyd yn y DU ddarparu geirda a gwblhawyd gan y clinigwr sy'n penodi a'i ardystio gan swyddog cyfrifol ar gyfer y sefydliad, yn cadarnhau ei hyfedredd yn y Saesneg.

Rydym yn cynnig derbyn tystlythyr cyflogwr fel tystiolaeth ategol o hyfedredd Saesneg ar gyfer dau fath o dystiolaeth::

- Cymhwyster (Math o Dystiolaeth 2): rydym yn cynnig caniatáu i ymgeiswyr a hyfforddodd yn Saesneg ond mewn gwlad nad yw'n siarad Saesneg fwyafrifol ddefnyddio geirda cyflogwr fel tystiolaeth o'u sgiliau rhyngweithio clinigol. Bydd angen iddynt ddarparu tystiolaeth o hyd bod eu hyfforddiant a'u hasesiad yn Saesneg (er enghraifft trwy ddilysiad gan eu darparwr addysg).
- Profion iaith (Math o Dystiolaeth 1): rydym yn cynnig caniatáu i ymgeiswyr nad ydynt yn cyflawni'r sgôr ofynnol o 0.5 o sgôr IELTS ar un o'r pedwar parth, neu o hanner gradd sgôr OET ar un o'r pedwar parth, i gefnogi eu sgorau prawf gyda thystlythyr cyflogwr.

Byddai angen i'r ymgeisydd fod wedi gweithio am o leiaf blwyddyn o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf mewn practis anghofrestredig mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU. Mae hyn yn adlewyrchu ein gofynion presennol ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi ymarfer dramor (Math o Dystiolaeth 3). Byddai angen i'r geirda ddangos bod gan yr ymgeisydd hyfedredd Saesneg digonol ar draws y parthau darllen, ysgrifennu, gwrandao a siarad a bod yr ymgeisydd yn gallu rhyngweithio yn Saesneg â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, cleifion, eu teuluoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.

³ <https://www.gmc-uk.org/registration-and-licensing/join-the-register/before-you-apply/evidence-of-your-knowledge-of-english/using-confirmation-from-your-employer>

Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch a yw tystlythyr cyflogwr yn bodloni ein meini prawf bod yn rhaid i dystiolaeth fod yn wrthrychol ac yn annibynnol. Er mwyn sicrhau atebolrwydd rydym yn cynnig bod yn rhaid i ganolwr y cyflogwr fod yn:

- weithiwr cyflogedig yn yr un sefydliad â'r ymgeisydd fel bod ganddo brofiad uniongyrchol o allu Saesneg yr ymgeisydd
- aelod cofrestredig fel ei fod yn deall nyrsio a bydwreigiaeth, yn ymarfer yn unol â'n Cod ac yn atebol i'r NMC
- mewn rôl arwain.

Byddai angen i uwch gofrestrydd, sydd hefyd gyda'r un cyflogwr, gydlofnodi'r tystlythyr i gefnogi ei wrthrychedd.

Rydym yn awyddus i ofyn am farn ynghylch sut y gallai geirada cyflogwr weithio ar gyfer lleoliadau gofal sylfaenol a chymdeithasol lle nad yw ymgeiswyr i'n cofrestr efallai'n gweithio'n rheolaidd gyda gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, ac ar gyfer sefydliadau llai a allai fod â strwythurau llywodraethu gwahanol i gyflogwyr mwy.

Rydym hefyd yn awyddus i glywed sut y gallwn sicrhau bod y geirada yn darparu tystiolaeth briodol bod ymgeisydd yn gallu cyflawni rhyngweithio clinigol yn ddiogel ac effeithiol yn Saesneg.

Dyma rai pynciau efallai yr hoffai ymatebwyr eu hystyried wrth ateb cwestiynau ein hymgyngoriad:

- A ddylai ymgeiswyr fod yn gweithio ar lefel benodol (er enghraifft Band 4 Agenda ar gyfer Newid y GIG neu gyfwerth)?
- Pa lefel ddylai'r canolwr a'r cyd-lofnodwr fod yn y sefydliad?
- A oes unrhyw sefydliadau allanol a all roi sicrwydd inni ynghylch y systemau ar gyfer cymeradwyo tystlythyrau?

Cwestiynau'r ymgynghoriad:

Dywedwch wrthym i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r elfennau canlynol o'n cynigion:

- Derbyn tystlythyrau cyflogwr fel tystiolaeth ategol ar gyfer y rhai sy'n brin o'r sgorau o 0.5 neu hanner gradd fel y bo'n berthnasol.
- Derbyn tystlythyrau cyflogwr fel tystiolaeth ategol ar gyfer y rhai sydd wedi'u hyfforddi yn Saesneg ond mewn gwlad ble nad yw Saesneg yn iaith y mwyafrif.
- Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n defnyddio tystlythyr cyflogwr fod wedi gweithio am o leiaf un flwyddyn o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf mewn practis anghofrestredig mewn lleoliad iechyd a gofal yn y DU.
- Rhaid i rai sy'n darparu tystlythyrau weithio yn yr un sefydliad, bod yn gofrestrydd gyda'r NMC ac mewn rôl arwain.
- Rhaid i uwch gofrestrydd, sydd hefyd gyda'r un cyflogwr, gydlofnodi'r tystlythyr.

Pe baem yn derbyn tystlythyrau cyflogwr, sut y gallem sicrhau eu bod yn darparu tystiolaeth briodol yn gyson o allu ymgeisydd ar gyfer rhyngweithio clinigol diogel yn Saesneg?

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhannu am y cynigion ar rôl tystlythyrau cyflogwr fel tystiolaeth o hyfedredd yn y Saesneg?

Mae'r cynnig presennol yn seiliedig ar ddefnyddio tystlythyrau cyflogwr fel tystiolaeth ategol ar gyfer ymgeiswyr ochr yn ochr â ffactorau eraill (er enghraifft, hyfforddiant mewn gwlad ble nad yw Saesneg yn iaith y mwyafrif). Pa mor gyfforddus fydddech chi'n teimlo pe bai tystlythyrau cyflogwr (fel y manylir yn gynharach yn yr adran hon) yn cael eu defnyddio ar eu pen eu hunain fel prawf o gymhwysedd Saesneg?

Cymwysterau ôl-raddedig

Gwyddom fod pobl yn mynd ymlaen i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth trwy hyfforddiant pellach mewn Saesneg. Rydym yn cynnig derbyn cymwysterau ôl-raddedig a addysgir ac a arholir yn Saesneg mewn gwlad ble mae Saesneg yn iaith y mwyafrif fel tystiolaeth o hyfedredd Saesneg, ar yr amod ei bod yn amlwg bod y cymhwyster yn bodloni ein **meini prawf**.

Mae gennym hefyd ddiddordeb mewn clywed barn ynghylch a allwn dderbyn cymwysterau y tu allan i ddisgyblaethau nyrsio a bydwreigiaeth ac a yw gwneud hynny'n ddigon i ddiogelu'r cyhoedd. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn a all cymhwyster ôl-raddedig fod yn ddarn o dystiolaeth ar ei ben ei hun neu a ddylai fod yn dystiolaeth atodol yn unig, er enghraifft os yw ymgeisydd yn methu â chyrraedd y sgorau gofynnol ar gyfer prawf iaith.

Cwestiynau'r ymgynghoriad:

Dywedwch wrthym i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r elfennau canlynol o'n cynigion:

- Derbyn cymwysterau ôl-raddedig a addysgir ac a arholir yn Saesneg fel tystiolaeth ategol ar gyfer y rhai sy'n brin o'r sgorau o 0.5 neu hanner gradd fel y bo'n berthnasol.
- Derbyn cymwysterau ôl-raddedig a addysgir/arholir yn Saesneg fel tystiolaeth ategol ar gyfer y rhai sydd wedi'u hyfforddi yn Saesneg ond mewn gwlad ble nad yw Saesneg yn iaith y mwyafrif.

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhannu am y cynigion ar rôl cymwysterau ôl-raddedig fel tystiolaeth o hyfedredd yn y Saesneg?

Mae'r cynnig presennol yn seiliedig ar ddefnyddio cymwysterau ôl-raddedig fel tystiolaeth ategol ar gyfer ymgeiswyr ochr yn ochr â ffactorau eraill (er enghraifft, hyfforddiant mewn gwlad ble nad yw Saesneg yn iaith y mwyafrif). Pa mor gyfforddus fydddech chi'n teimlo pe bai cymwysterau ôl-raddedig y tu allan i ddisgyblaethau nyrsio a bydwreigiaeth sy'n cael eu haddysgu a'u harholi yn Saesneg yn cael eu defnyddio ar eu pen eu hunain fel prawf o gymhwysedd yn yr iaith Saesneg?

Cyfuno profion a sgorau

Un math o dystiolaeth a dderbyniwn ar hyn o bryd yw cyflawniad diweddar o'r sgôr ofynnol yn un o'r profion iaith Saesneg a dderbyniwn. Gall ymgeiswyr gyfuno sgôr dwy brawf cyn belled â'u bod yn cael eu cymryd o fewn chwe mis i'w gilydd. Er mwyn cefnogi ymgeiswyr rhyngwladol i gyflawni holl elfennau'r broses ymgeisio rhyngwladol, rydym yn ystyried ymestyn y cyfnod y mae'n rhaid sefyll y ddau brawf ynddo i flwyddyn. Teimlwn y dylai'r estyniad hwn gynyddu hyblygrwydd heb beryglu diogelwch.

Nododd ymarfer gosod safonau OET ostyngiad posibl yn y sgôr a dderbyniwn ar gyfer y parth siarad mewn profion iaith, ond argymhellwyd ein bod yn ystyried tystiolaeth arall. Nid oes unrhyw ffynonellau tystiolaeth eraill yn cefnogi'r newid hwn, ac roedd yr adborth gan Fforwm Llais y Cyhoedd yn amlygu pwysigrwydd y maes siarad. Felly nid ydym yn cynnig ymgynghori ar yr opsiwn hwn.

Cwestiynau'r ymgynghoriad:

Dywedwch wrthym i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r elfennau canlynol o'r cynnig:

- Ymestyn y cyfnod gall rhywun gyfuno sgoriau prawf o 6 mis i 12 mis.
- Safoni'r sgôr isaf a dderbynnir ar draws profion i fod heb fod yn fwy na 0.5 yn is na'r sgôr gofynnol ar gyfer pob parth iaith wrth gyfuno sgoriau prawf ar IELTS (sgôr isaf ar gyfer darllen, siarad a gwrando wrth gyfuno profion = 6.5; sgôr isaf ar gyfer ysgrifennu wrth gyfuno profion = 6).
- Safoni'r sgôr isaf a dderbynnir ar draws profion i fod heb fod yn fwy na hanner gradd yn is na'r sgôr gofynnol ar gyfer pob parth iaith wrth gyfuno sgoriau prawf ar OET (sgôr isaf ar gyfer darllen, siarad a gwrando wrth gyfuno profion = C+; sgôr isaf ar gyfer ysgrifennu wrth gyfuno profion = C).

Nid ydym yn cynnig newid y sgôr cyffredinol sydd ei angen arnom ar gyfer profion iaith. A allwch ddweud wrthym i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol:

- Cynnal sgôr llwyddo **cyffredinol** o 7 ar IELTS.
- Cynnal sgôr llwyddo **cyffredinol** o 'B' ar OET.

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhannu am y cynigion ar drothwyon derbyn sgôr prawf hyfedredd Saesneg IELTS ac OET?

Effaith cydraddoldeb

Mae'n hanfodol bod pawb sy'n gwneud cais i ymuno â'n cofrestr yn dangos eu gallu yn yr iaith Saesneg. Rhaid i'n gofynion fod yn ffordd angenrheidiol, gymesur a chyfreithlon i ni gyflawni ein dyletswydd statudol i amddiffyn y cyhoedd. Fodd bynnag, gall hyn fod yn llai syml i bobl a hyfforddodd y tu allan i'r DU a phobl a hyfforddodd mewn gwledydd lle nad yw Saesneg yn iaith fwyafrifol.

Fel rhan o'n hadolygiad rydym wedi datblygu Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb newydd i ddeall effaith ein gofynion iaith Saesneg presennol a datblygiadau polisi posibl yn y dyfodol ar wahanol grwpiau. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid o ystod eang o gymunedau i gyd-greu'r cynigion hyn ac adlewyrchu profiadau bywyd cofrestreion ac ymgeiswyr. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn gyfle arall i ni ymgysylltu â lleisiau a chynulleidfaoedd amrywiol er mwyn ein galluogi i ddeall yn well effeithiau cydraddoldeb ein gofynion iaith Saesneg.

Ar ôl dadansoddi'r adborth a'r dystiolaeth a gawsom hyd yma, credwn fod mwy y gallwn ei wneud i fod yn hyblyg o ran y mathau o dystiolaeth yr ydym yn ei derbyn tra'n cynnal hyder bod gan bawb ar ein cofrestr yr hyfedredd Saesneg angenrheidiol i ddarparu gofal diogel, effeithiol a charedig.

Cwestiynau'r ymgynghoriad:

Gan ystyried yr hyn yr ydych wedi'i ddarllen heddiw, a hoffech chi rannu unrhyw farn ynghylch sut y gallai'r cynigion hyn effeithio ar unigolion yn seiliedig ar eu nodweddion gwarchoddedig?

Meysydd eraill i'w hystyried

Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn deall a oes unrhyw fathau eraill o dystiolaeth y dylem eu derbyn ar gyfer hyfedredd Saesneg ac a ddylem ystyried gofynion gwahanol ar gyfer pob proffesiwn yr ydym yn ei reoleiddio.

Cwestiynau'r ymgynghoriad:

A ddylai'r safonau rydym yn eu gosod ar gyfer hyfedredd Saesneg fod yr un fath ar draws y tri phroffesiwn y mae'r NMC yn eu rheoleiddio?

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei rannu am hyfedredd yn y Saesneg a'r cynigion a rennir gan yr NMC nad ydych wedi gallu ei wneud hyd yn hyn?

5. Sut i ymateb i'n hymgyngoriad

Gallwch ymateb drwy'r ddolen ganlynol:

www.nmc.org.uk/registration/joining-the-register/english-language-consultation/

Rydym yn argymhell eich bod yn darllen ein **Canllawiau iaith Saesneg** llawn, sy'n nodi ein gofynion yn fanylach, cyn ymateb i'r cwestiynau.

Os na allwch gyflwyno eich ymateb gan ddefnyddio'r arolwg ar-lein, cysylltwch â ni yn consultations@nmc-uk.org am fformat arall. Gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Mae holl gwestiynau'r ymgynghoriad yn ddewisol ac eithrio'r cwestiynau 'Amdanoch chi'. Mae hyn yn dangos i ni a ydym wedi ymgysylltu ag ystod amrywiol ac eang o bobl. Byddwn yn dadansoddi ymatebion ar ran sefydliadau ar wahân i ymatebion gan unigolion, felly mae'n bwysig ein bod yn gwybod ym mha rinwedd yr ydych yn ymateb.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad byddwn yn gofyn am eich enw ac enw'r sefydliad. Fodd bynnag, mae gennych yr opsiwn i aros yn ddienw os dymunwch.

Os ydych yn ymateb fel unigolyn ni fyddwn yn gofyn am eich enw, sy'n golygu na fyddwch yn gallu newid eich ymatebion ar ôl i chi eu cyflwyno. Ni fyddwn ychwaith yn gallu darparu cofnod o'ch ymatebion.

Bydd ein hymgyngoriad yn rhedeg o 17 Mehefin 2022 tan 12 Awst 2022. Ni fyddwn yn cynnwys unrhyw ymatebion a gawn ar ôl yr amser hwn yn y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

6. Beth fyddwn yn ei wneud nesaf

Bydd ein hymgyngoriad yn cau ar 12 Awst 2022. Rydym yn gweithio gyda phartner cyflawni allanol a fydd yn dadansoddi canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn ochr yn ochr â gwaith ymgysylltu ansoddol â rhanddeiliaid. Byddant yn cynhyrchu adroddiad ymgynghori yn amlinellu'r themâu a godwyd a'r gwersi allweddol a ddysgwyd. Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad i gyfrannu at ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'n hasesiad o'r effaith ar ddiogelu data (DPIA). Yn seiliedig ar ein holl ymgysylltu a thystiolaeth byddwn wedyn yn gofyn i'n Cyngor ystyried argymhellion ar ein gofynion iaith Saesneg yn y dyfodol.

Ein bwriad yw i'n Cyngor ystyried canlyniad yr ymgynghoriad hwn ochr yn ochr â gwybodaeth berthnasol arall yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2022. Rydym yn bwriadu dechrau gweithredu unrhyw newidiadau i'n gofynion o fis Hydref 2022. Byddwn hefyd yn diweddarau ein canllawiau gofynion iaith Saesneg.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n Grŵp Cynghori Allanol (EAG) i ystyried y dystiolaeth a gawn drwy'r ymgynghoriad hwn ac ar ôl yr ymgynghoriad i ddatblygu gofynion newydd.